Ar ôl 1 Gorffennaf, bydd gan y Cynulliad bwerau i greu deddfwriaeth eilaidd ar gyfer organebau a addaswyd yn enetig yng Nghymru, a byddwn yn ystyried ein sefyllfa, o fewn y paramedrau a osodir gan ddeddfwriaeth UE a chytundebau masnach rhyngwladol.

## Launch of the Agri-Food Partnership

**Q10 Peter Rogers:** Will Christine Gwyther give assurances that this launch of the Agri-Food Partnership will not be to the detriment of the Livestock Auction? (OAQ212JS/99)

**Christine Gwyther:** The Agri-Food Partnership will strengthen the agri-food sector in Wales. The Partnership will take forward the industry-led action plans launched by the Secretary of State and the chairmen of the three sectoral working groups on 8 March, monitor progress in their implementation and regularly review and update them, in conjunction with the National Assembly. The Partnership has established four regional agri-food groups to take the action plans forward at regional level, taking account of local priorities. To support this work, each Welsh Development Agency region will have an agri-food co-ordinator who will work under the guidance of the WDA Food Directorate.

The lamb and beef action plan, drawn up by the industry, including representatives of the Livestock Auctioneers, calls on livestock markets to reappraise their position and plan for the future so that a strategic network of livestock markets remains to service both the store and finished stock trade in Wales.

## Lansio'r Bartneriaeth Bwyd-Amaeth

**C10 Peter Rogers:** A all Christine Gwyther roi sicerwydd na fydd lansio'r Bartneriaeth Bwyd-Amaeth yn andwyol i'r Arwerthiant Da Byw? (OAQ212JS/99)

**Christine Gwyther:** Bydd y Bartneriaeth Bwyd-Amaeth yn cryfhau'r sector bwyd-amaeth yng Nghymru. Dan arweiniad y diwydiant, bydd y Bartneriaeth yn bwrw ymlaen â'r cynlluniau a lansiwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol a chadeiryddion tri o'r gweithgorau sector ar 8 Mawrth, bydd yn cadw golwg ar y cynnydd a wneir o ran eu gweithredu ac yn eu hadolygu a'u diweddar u'n rheolaidd, ar y cyd â'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r Bartneriaeth wedi sefydlu pedwar grŵp bwyd-amaeth rhanbarthol i fwrw ymlaen gyda'r cynlluniau gweithredu ar lefel ranbarthol, gan ystyried blaenoriaethau lleol. Yn gefn i'r gwaith hwn, bydd gan bob un o ranbarthau Awdurdod Datblygu Cymru gydlynnydd bwyd-amaeth a fydd yn gweithio dan gyfarwyddyd Cyfarwyddiaeth Fwyd yr Awdurdod.

Mae'r cynllun gweithredu ar gyfer cig oen a chig eidion, a luniwyd gan y diwydiant, gan gynnwys cynrychiolwyr Arwerthwyr Da Byw, yn galw ar farchnadoedd da byw i edrych o'r newydd ar eu sefyllfa a chynllunio ar gyfer y dyfodol, fel bod rhwydwaith strategol o farchnadoedd da byw yn dal i wasanaethu'r fasnach gwartheg stôr a gwartheg tew yng Nghymru.

## Farming Income

**Q11 Peter Black:** What action does Christine Gwyther propose to take to protect farming incomes in the current economic climate? (OAQ202VB)

**Christine Gwyther:** The Assembly will have a key part to play in the implementation of policies which will affect Welsh agriculture and to tailor schemes to the needs of Welsh farmers. We will work closely with other organisations and bodies to promote the interests and products of Welsh farmers. On 8 March, together with the three chairmen of the industry-led sectoral working groups, Alun Michael launched action plans for the lamb and beef, dairy and organic sectors. The plans set out an agenda for action for the development of three key sectors of the agri-food industry in Wales.

I have stressed to the Welsh Development Agency that its new role is vital to lead economic development in the agri-food sector. The WDA will be aided by the newly formed Agri-Food

Partnership. The WDA is also now responsible for promoting quality foods from Wales giving a coherent approach to promotional and economic development issues in the farming sector.

### **Incwm Ffermydd**

**C11 Peter Black:** Sut y mae Christine Gwyther yn bwriadu gweithredu i ddiogelu incwm ffermydd yn yr hinsawdd economaidd presennol? (OAQ202VB)

**Christine Gwyther:** Bydd gan y Cynulliad swyddogaeth allweddol o ran gweithredu polisiau a fydd yn effeithio ar amaethyddiaeth Cymru ac i deilwrio cynlluniau i weddu anghenion ffermwyr Cymru. Byddwn yn gweithio'n glös gyda sefydliadau a chyrrff eraill i hyrwyddo buddiannau a chynnyrch ffermwyr Cymru. Ar 8 Mawrth, ynghyd â thri chadeirydd o'r gweithgorau sector dan arweiniad y diwydiant, lansiodd Alun Michael gynlluniau gweithredu ar gyfer y sector cig oen a chig eidion, y sector llaeth a'r sector organig. Mae'r cynlluniau'n nodi agenda gweithredu ar gyfer datblygu tri sector allweddol diwydiant bwyd-amaeth Cymru.

Pwysleisiais wrth Awdurdod Datblygu Cymru fod ei swyddogaeth newydd yn holl bwysig i arwain datblygu economaidd yn y sector bwyd-amaeth. Bydd y Bartneriaeth Bwyd-Amaeth sydd newydd ei ffurfio yn cynorthwyo'r Awdurdod. Yr Awdurdod hefyd sydd bellach yn gyfrifol am hyrwyddo bwyd o safon o Gymru gan greu safbwyt cydlynol tuag at faterion hyrwyddo a datblygu economaidd yn y sector ffermio.

### **Common Agricultural Policy Reform**

**Q12 Karen Sinclair:** Bearing in mind the different arrangements which are likely to be in place for hill livestock compensatory allowances which after CAP reform will be by area rather than headage based, what mechanisms can be used to protect the current 'block' for Wales? (OAQ179JS)

**Christine Gwyther:** The new HLCA arrangements are still under consideration but the understanding reached between all the Agriculture Departments in the UK is that each will maintain its normal share of the total UK budget.

### **Diwygiad y Polisi Amaeth Cyffredin**

**C12 Karen Sinclair:** O ystyried y trefniadau gwahanol sydd yn debygol o gael eu cyflwyno ar gyfer lwfansau iawndal da byw tir uchel, a fydd, ar ôl i'r polisi amaeth cyffredin gael ei ddiwygio, yn lwfansau yn ôl arwynebedd yn hytrach nag yn lwfansau fesul pen, pa beirianwaith y gellir ei ddefnyddio i ddiogelu'r 'bloc' presennol ar gyfer Cymru? (OAQ179JS)

**Christine Gwyther:** Mae'r trefniadau presennol ar gyfer y lwfansau yn dal i fod dan ystyriaeth ond y ddealltwraeth a gafwyd rhwng holl Adrannau Amaeth gwledydd y DU yw y bydd pob un yn cadw'i chyfran arferol o gyfanswm cylideb gwledydd y DU.

### **Autumn Sheep Sales**

**Q13 Karen Sinclair:** What plans does Christine Gwyther have to alleviate the pending problem of autumn sheep sales following the problems experienced last year? (OAQ180JS)

**Christine Gwyther:** It is too early to speculate on the prices that will be achieved at this autumn's sheep sales. In any case this is not an area for Government intervention. The prices will reflect the trading conditions applying then and the industry will determine the level of prices reached.

## Arwerthiannau Defaid yr Hydref

**C13 Karen Sinclair:** Pa gynlluniau sydd gan Christine Gwyther i sicrhau llai o broblemau yn ystod arwerthiannau defaid yr hydref hwn o ystyried y problemau a gafwyd y llynedd? (OAQ180JS)

**Christine Gwyther:** Mae'n rhy fuan rhagweld beth fydd y prisiau yn arwerthiannau defaid yr hydref hwn. Beth bynnag, nid yw hyn yn fater i'r Llywodraeth ymyrryd ynddo. Bydd y prisiau'n adlewyrchu'r amgylchiadau masnachu sydd yn bod ar y pryd a'r diwydiant fydd yn pennu lefel y prisiau hynny

## Genetically Modified Foods

**Q14 Rhodri Glyn Thomas:** What powers does the Assembly have in terms of testing, production and labelling GM foods? (OAQ185)

**Christine Gwyther:** The First Secretary has announced that it his intention that the National Assembly for Wales will act as the food assessment body for applications to market novel foods for the first time in Wales. It will be advised by the Advisory Committee on Novel Foods and Processes, and will also be advised by other relevant expert committees in the same way as Ministers of the Crown. From 1 July the Assembly will take over the functions of the Secretary of State for Wales in relation to the release of genetically modified organisms in Wales and will have the secondary legislation powers for GMOs, within the parameters laid down by EU legislation and international trade agreements and will be advised by the statutory Advisory Committee on Releases into the Environment and other relevant expert committees in the same way as central Government Departments. The Assembly will not however be able to introduce additional labelling requirements in advance of European Union Legislation.

## Bwydydd a Addaswyd yn Enetig

**C14 Rhodri Glyn Thomas:** Pa bwerau sydd gan y Cynulliad o ran cynnal profion ar fwydydd a addaswyd yn enetig, ac o ran eu cynhyrchu a'u labelu? (OAQ185)

**Christine Gwyther:** Mae'r Prif Ysgrifennydd wedi cyhoeddi mai ei fwriad yw mai Cynulliad Cenedlaethol Cymru fydd y corff asesu bwyd ar gyfer ceisiadau i farchnata bwydydd newydd am y tro cyntaf yng Nghymru. Bydd y Pwyllgor Ymgynghorol ar Fwydydd a Phrosesau Newydd yn cyngori'r Pwyllgor Ymgynghorol a chaiff gyngor hefyd gan bwyllgorau perthnasol eraill ag arbenigedd yn y maes yn yr un modd ag y cynhorir Gweinidogion y Goron. Ar ôl 1 Gorffennaf, bydd y Cynulliad yn ysgwyddo swyddogaethau Ysgrifennydd Gwladol Cymru, gyda golwg ar ryddhau organebau a addaswyd yn enetig yng Nghymru a bydd ganddo'r pwerau deddfu eilaidd dros organebau a addaswyd yn enetig, o fewn y paramedrau a osodir gan ddeddfwriaeth UE a chytundebau masnach rhyngwladol. Caiff ei gynghori gan y Pwyllgor Ymgynghorol statudol ar Ryddhau Sylweddau i'r Amgylchedd a phwyllgorau perthnasol eraill sydd yn arbenigo yn y maes yn yr un modd ag y cynhorir Adrannau'r Llywodraeth ganolog. Fodd bynnag, ni fydd y Cynulliad yn gallu cyflwyno gofynion labelu ychwanegol cyn Deddfwriaeth gan yr Undeb Ewropeaidd.

## Welsh Produce

**Q15 Mick Bates:** What powers does the Assembly have to ensure that all public sector bodies use Welsh produce in preference to imported food? (OAQ204VB)

**Christine Gwyther:** We are considering how we can best alert firms based in Wales to the opportunity for selling to the Welsh Assembly. Welsh Office procurement policy is based on the previous government's 1995 White Paper 'Setting New Standards—A Strategy for

Government Procurement'. EC public procurement regulations require that there can be no discrimination for or against the use of a particular nation's products, but I want to move to make sure our producers have the best possible chance to bid.

### Cynnyrch Cymreig

**C15 Mick Bates:** Pa bwerau sydd gan y Cynulliad i sicrhau bod pob corff yn y sector cyhoeddus yn defnyddio cynnyrch Cymreig yn hytrach na bwyd a fawnforiwyd? (OAQ204VB)

**Christine Gwyther:** Yr ydym yn ystyried sut orau mae deffro cwmnïau yng Nghymru i'r cyfle o werthu i'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae polisi prynu'r Swyddfa Gymreig wedi'i seilio ar Bapur Gwyn y llywodraeth ddiwethaf yn 1995, 'Gosod Safonau Newydd—Strategaeth Brynu i'r Llywodraeth'. Mae gofynion prynu cyhoeddus y CE yn mynnu na ellir camwahaniaethu o blaid nac yn erbyn defnyddio cynnyrch cenedl benodol, ond yr wyf am wneud yn siŵr bod ein cynhyrchwyr yn cael y cyfle gorau i wneud cais.

### Co-operatives in Welsh Farming

**Q16 John Griffiths:** Will Christine Gwyther put in place measures to encourage co-operatives in Welsh farming? (OAQ197VB)

**Christine Gwyther:** Yes. Measures are being put in place to encourage co-operatives in Welsh farming. One of the outcomes of the Lamb and Beef Action Plan was to recommend that support should be given to co-operative ventures by farmers and in particular that an all-Wales livestock marketing co-operative should be established. In line with this the Welsh Office are considering providing financial support for a feasibility study for the establishment of an all-Wales co-operative and the work is being taken forward by a member of staff from the Meat and Livestock Commission who has been seconded to the Welsh Agricultural Organisation Society for this purpose. The Department is also considering supporting local initiatives to promote niche products.

### Cwmnïau Cydweithredol yn y Byd Ffermio

**C16** A fydd Christine Gwyther yn rhoi mesurau ar waith i hybu cwmnïau cydweithredol yn y byd ffermio yng Nghymru? (OAQ197VB)

**Christine Gwyther:** Bydd. Mae camau ar y gweill i annog cwmnïau cydweithredol ym maes ffermio yng Nghymru. Un o ganlyniadau'r Cynllun Gweithredu ar Gig Oen a Chig Eidion oedd argymhell y dylid rhoi cefnogaeth i fentrau cydweithredol gan ffermwyr ac yn benodol y dylid sefydlu cwmni marchnata da byw cydweithredol i Gymru gyfan. Yn unol â hyn, mae'r Swyddfa Gymreig yn ystyried darparu cefnogaeth ariannol ar gyfer cynnal astudiaeth i weld pa mor ymarferol fyddai sefydlu cwmni cydweithredol i Gymru gyfan ac maeaelod o'r Comisiwn Cig a Da Byw a secondiwyd at y diben hwn i Gymdeithas Trefnu Gwledig Cymru, yn bwrw ymlaen â'r gwaith. Mae'r Adran hefyd yn ystyried cefnogi cynlluniau lleol i hyrwyddo cynnyrch arbenigol.

### Food Processing Industry

**Q17 John Griffiths:** What strategy will be pursued to develop the food processing industry in Wales? (OAQ198VB)

**Christine Gwyther:** I refer the Assembly Member to my earlier answer to question 1. (OAQ178VB)

## **Diwydiant Prosesu Bwyd**

**C17 John Griffiths:** Pa strategaeth a arddelir er mwyn datblygu'r diwydiant prosesu bwyd yng Nghymru? (OAQ198VB)

**Christine Gwyther:** Cyfeiriaf yr Aelod y Cynulliad at fy ateb blaenorol i gwestiwn 1 (OAQ178VB).

### **Organic Aid Scheme**

**Q18 Kirsty Williams:** When will the Organic Aid Scheme be made available to Welsh farmers? (OAQ182JS/99)

**Christine Gwyther:** Subject to approval from the European Commission, the new Organic Aid Scheme, which will be renamed the Organic Farming Scheme, will be open for applications this summer.

### **Cynllun Cymorth Organig**

**C18 Kirsty Williams:** Pryd y bydd y cynllun Cymorth Organig ar gael i ffermwyr Cymru? (OAQ182JS/99)

**Christine Gwyther:** Ar yr amod y caiff ei gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd, bydd y Cynllun Cymorth Organig newydd, a ailennir yn Gynllun Ffermio Organig, ar agor ar gyfer ceisiadau yr haf hwn.

### **Canllawiau Asesu ar gyfer y Cynllun Tir Gofal**

**Q19 Elin Jones:** Pam nad yw'r canllawiau asesu ar gyfer cynllun Tir Gofal wedi'u datgelu i'r cyhoedd? (OAQ210JS)

**Christine Gwyther:** Bydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn cyhoeddi egwyddorion y system raddio a sgorio yn fuan. Yn y cyfamser, bydd ymgeiswyr yn cael gwybod eu sgôr a'r sgôr lwyddiannus isaf os ydynt yn dymuno.

### **Tir Gofal Scheme Assessment Guidelines**

**Q19 Elin Jones:** Why haven't the assessment guidelines for the Tir Gofal scheme been made public? (OAQ210JS)

**Christine Gwyther:** The Countryside Council for Wales will publish the principles of the ranking and scoring system shortly. In the meantime, applicants who ask will be given their score and the lowest successful score.

### **Subsidy Payments to Farmers**

**Q20 David Davies:** What action is being taken to speed up late subsidy payments to farmers? (OAQ 190JS)

**Christine Gwyther:** I recognise that there have been unacceptable delays in making subsidy payments, and am committed to giving farmers in Wales the service they deserve. This is why we are investing £16 million over the next three years in improving our service. We expect some benefits in customer service and simplification of administration within the first year. We aim to make major improvements, supported by a new computer system by year three.

## Cymhorthdal i Ffermwyr

**C20 David Davies:** Beth sydd yn cael ei wneud i gyflymu'r broses o dalu cymhorthdal i ffermwyr? (OAQ190JS)

**Christine Gwyther:** Yr wyf yn cydnabod bod oedi annerbyniol o ran gwneud taliadau cymhorthdal ac yr wyf wedi ymrwymo i roi'r gwasanaeth y maent yn ei haeddu i ffermwyr. Dyna paham yr ydym yn buddsoddi £16 miliwn dros y tair blynedd nesaf i wella'n gwasanaeth. Yr ydym yn disgwyl rhywfaint o fudd o ran gwasanaeth i gwsmeriaid a symleiddio'r weinyddiaeth yn ystod y flwyddyn gyntaf. Y nod yw gwneud gwelliannau o bwys, gyda threfn gyfrifiadurol newydd yn gefn i hynny erbyn y drydedd flwyddyn.

### Imported Meat

**Q21 Jocelyn Davies:** What assurances can Christine Gwyther give the farming community and consumers that meat imported from outside the UK complies with the regulations imposed on Welsh farmers, in relation to animal welfare, when exporting livestock? (OAQ191JS)

**Christine Gwyther:** Discrimination against imported animal products on the basis of the welfare standards to which they have been produced is not permitted under World Trade Organisation rules.

The rules applied under the Welfare of Animals (Transport) Order 1997 to protect animal welfare when live animals are exported from Great Britain, implements EU Directive 91/628 which applies to all livestock being transported on EU territory.

### Cig a Fewnforiwyd

**C21 Jocelyn Davies:** Pa sicrwydd y gall Christine Gwyther ei roi i'r gymuned amaethyddol ac i'r defnyddwyr bod cig sydd yn cael ei fewnforio o wledydd y tu allan i'r Deyrnas Unedig yn cydymffurfio â'r rheoliadau sydd yn cael eu gorfodi ar ffermwyr Cymru, o safbwyt lles yr anifeiliaid, wrth allfori da byw? (OAQ191JS)

**Christine Gwyther:** Ni chaniateir camwahaniaethu yn erbyn cynnrych anifeiliaid a fewnforir ar sail y safonau lles y'u cynhyrchwyd danynt dan reolau'r Gymdeithas Fasnach Fyd-Eang.

Mae'r rheolau a ddefnyddir dan Orchymyn Lles Anifeiliaid (Cludiant) 1997, i warchod lles anifeiliaid pan allforir anifeiliaid byw o wledydd Prydain Fawr, yn gweithredu Cyfarwyddeb 91/628 yr UE sydd yn berthnasol i'r holl dda byw a allforir ar diriogaeth yr UE.

### Funding for Tir Gofal Scheme

**Q22 Peter Rogers:** Will Christine Gwyther increase the funding of the Tir Gofal scheme? (OAQ213JS/99)

**Christine Gwyther:** The budget for Tir Gofal is increasing year on year as is the total expenditure on agri-environmental schemes, as is shown in the following table:

	Old Schemes	Tir Gofal	£ millions Annual Total
1997-98	9.8		9.8
1998-99	12.7		12.7
1999-00	14.0		14.0
2000-01	13.0	3.2	16.2

2001-02	12.9	6.4	19.3
---------	------	-----	------

Note: The table shows payments to farmers and does not include running costs.

### Cyllid ar gyfer Cynllun Tir Gofal

**C22 Peter Rogers:** A wnaiff Christine Gwyther roi mwy o arian i'r cynllun Tir Gofal? (OAQ213JS/99)

**Christine Gwyther:** Mae'r gyllideb ar gyfer Tir Gofal yn cynyddu o'r naill flwyddyn i'r llall fel y mae cyfanswm y gwariant ar gynllunio amaeth-amgylcheddol, fel y dangosir yn y tabl isod:

	Hen Gynlluniau	Tir Gofal	£ miliynau Cyfanswm Blynnyddol
1997-98	9.8		9.8
1998-99	12.7		12.7
1999-00	14.0		14.0
2000-01	13.0	3.2	16.2
2001-02	12.9	6.4	19.3

Sylwer: Mae'r tabl yn dangos taliadau i ffermwyr ac nid yw'n cynnwys costau cynnal.

### Small and Medium Sized Enterprises in the Rural Economy

**Q23 Huw Lewis:** Can Christine Gwyther report on any discussions she has had with the Rural Partnership for Wales on the development of SMEs in the rural economy? (OAQ220VB)

**Christine Gwyther:** I attended the latest meeting of the Rural Partnership for Wales on 17 May in Carmarthen. A draft Rural Statement, which the Partnership is producing for consideration by the Assembly, was discussed. The statement is a wide-ranging document that encompasses a broad span of policy interests affecting rural Wales, including the need to develop and support small and medium size enterprises in the area.

### Busnesau Bach a Chanolig eu Maint yn y Gymru Wledig

**C23 Huw Lewis:** A all Christine Gwyther gyflwyno adroddiad am unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cynnal gyda Phartneriaeth Wledig Cymru ar ddatblygu busnesau bach a chanolig eu maint yn yr economi wledig? (OAQ220VB)

**Christine Gwyther:** Yr oeddwn yn bresennol yng nghyfarfod diweddaraf Partneriaeth Wledig Cymru ar 17 Mai yng Nghaerfyrddin. Trafodwyd Datganiad Gwledig drafft, y mae'r Bartneriaeth yn ei baratoi i'r Cynulliad ei ystyried. Mae'r datganiad hwn yn ddogfen eang ei chynnwys, sydd yn cwmpasu ystod mawr o ddiddordebau polisi sydd yn effeithio ar y Gymru wledig, gan gynnwys y ffaith fod angen datblygu a chefnogi busnesau bach a chanolig eu maint yn yr ardal.

### Access to the Countryside

**Q24 Mr Huw Lewis:** Can Christine Gwyther comment on the Government's plans to improve access to the countryside and how does she intend to take these proposals forward in consultation with other interested partners? (OAQ221AG)

**Christine Gwyther:** The Government has announced its intention to legislate, at the earliest opportunity, to secure the right of access. Although the right of access has already been the

subject of extensive consultation, the Government intends shortly to consult further on reforming rights of way legislation. The Assembly will be consulted on the Government's proposals for legislation and will need to form its own view on these matters. We will remain in close touch with the bodies representing key countryside interests in Wales.

### Mynediad i Gefn Gwlad

**C24 Huw Lewis:** A all Christine Gwyther gyflwyno sylwadau ar gynlluniau'r llywodraeth i wella mynediad i gefn gwlad, a sut y mae'n bwriadu gyrru'r cynlluniau hyn yn eu blaen gan ymgynghori â phartneriaid eraill sydd â diddordeb? (OAQ221AG)

**Christine Gwyther:** Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ei bwriad i ddeddfu, cyn gynted ag y bo modd, er mwyn sicrhau hawl mynediad. Er bod hawl mynediad eisoes wedi bod yn destun ymgynghori eang, mae'r Llywodraeth yn bwriadu ymgynghori ymhellach yn fuan ar ddiwygiog deddfwriaeth hawl mynediad. Ymgynghorir â'r Cynulliad ar gynigion y Llywodraeth ar gyfer deddfu a bydd angen iddo lunio'i farn ei hun ynghylch hyn. Byddwn yn cadw mewn cysylltiad clòs gyda'r cyrff sydd yn cynrychioli buddiannau allweddol cefn gwlad yng Nghymru.

### Mental Health Problems

**Q25 Lynne Neagle:** Can Christine Gwyther give the figures for the levels of mental health problems and suicide rates in rural Wales? (OAQ222VB)

**Christine Gwyther:** We have defined 'rural' as the nine Welsh unitary authority areas with population density below the Welsh average, that is Powys, Ceredigion, Gwynedd, Pembrokeshire, Carmarthenshire, Isle of Anglesey, Conwy, Monmouthshire and Denbighshire.

The percentage of respondents (aged 18 and over) in these areas to the 1995 Welsh Health Survey who reported that they had at the time a mental or nervous illness which they had had for three months or more was 10.1 per cent. The figure for all of Wales was 11.2 per cent.

The crude suicide rate per 100,000 population in the years 1995 to 1997 was 11.2 per cent in rural areas while the all Wales rate was 10.3 per cent

We are currently reviewing our All Wales Strategy for mental health services and in the course of this we shall consider the particular stresses affecting the population in these areas and the problems in ensuring equity of access to services throughout Wales. We have funded an investigation by the Institute of Rural Health into rural stress. Reduction of suicide rates throughout Wales is set as an NHS priority

### Problemau Iechyd Meddwl

**C25 Lynne Neagle:** A all Christine Gwyther roi'r ffigurau ar gyfer y lefelau o broblemau iechyd meddwl a'r cyfraddau hunanladdiad yng nghefn gwlad Cymru? (OAQ222VB)

**Christine Gwyther:** Diffiniwyd 'cefn gwlad' fel y naw ardal awdurdod unedol yng Nghymru sydd â dwysedd poblogaeth is na'r cyfartaledd drwy Gymru, sef Powys, Ceredigion, Gwynedd, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ynys Môn, Conwy, Sir Fynwy a Sir Ddinbych.

Canran y nifer a ymatebodd (18 oed a throsodd) yn yr ardaloedd hyn i Arolwg Iechyd Cymru 1995 a ddywedodd eu bod yn dioddef ar y pryd o afiechyd meddwl neu afiechyd nerfol oedd wedi bod ganddynt am dri mis neu fwy oedd 10.1 y cant. Y ffigwr ar gyfer Cymru gyfan oedd 11.2 y cant.

Y gyfradd hunanladdiad sylfaenol ar gyfer 100,000 o'r boblogaeth rhwng 1995 a 1997 oedd 11.2 y cant mewn ardaloedd gwledig a'r gyfradd drwy Gymru gyfan oedd 10.3 y cant.

Yr ydym wrthi'n adolygu ein Strategaeth Gymru Gyfan ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ac yn sgil hyn, byddwn yn ystyried y straen arbennig sydd yn effeithio ar boblogaeth yr ardaloedd hyn a'r problemau o ran sicrhau mynediad teg at wasanaethau ledled Cymru. Cyllidwyd arolwg gan y Sefydliad Iechyd Gwledig ar straen meddwl yng nghefn gwlad. Mae'r NHS wedi gosod gostwng cyfraddau hunanladdiad ledled Cymru fel blaenoriaeth.

### **Common Agricultural Policy**

**Q26 Lynne Neagle:** What plans does Christine Gwyther have to discuss with others recent reforms to the common agriculture policy? (OAQ223AG)

**Christine Gwyther:** The Welsh Office is currently consulting a wide range of interested organisations and individuals on how the common agricultural reform component of Agenda 2000 will affect farmers in Wales.

### **Y Polisi Amaeth Cyffredin**

**C26 Lynne Neagle:** Pa gynlluniau sydd gan Christine Gwyther i drafod y diwygiadau diweddar i'r Polisi Amaeth Cyffredin gydag eraill? (OAQ223AG)

**Christine Gwyther:** Mae'r Swyddfa Gymreig ar hyn o bryd yn ystyried ymgynghori ag amrywiaeth eang o sefydliadau ac unigolion yng hylch sut y bydd yr elfen diwygio polisi amaeth cyffredin o Agenda 2000 yn effeithio ar ffermwyr yng Nghymru.

### **Environmental Scheme for Farms**

**Q27 Mick Bates:** What plans are being made to expand or create an environmental scheme, which will be accessible by all farm businesses, in Wales, not necessarily on a whole farm basis? (OAQ 267VB) [R]

**Christine Gwyther:** Tir Gofal has replaced all the existing agri-environment schemes. It is a whole farm scheme that is available throughout Wales. There are no plans for any other environmental schemes.

### **Cynllun Amgylcheddol i Ffermydd**

**C27 Mick Bates:** Pa gynlluniau sydd yn cael eu gwneud i ehangu neu i greu cynllun amgylcheddol, a fydd yn hygrych i bob busnes fferm, yng Nghymru, heb fod o anghenraíd ar sail ffermydd cyfan? (OAQ267VB) [R]

**Christine Gwyther:** Mae Tir Gofal wedi disodli'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol presennol. Mae'n gynllun ar gyfer ffermydd cyfan sydd ar gael ledled Cymru. Ar hyn o bryd, ni fwriedir cyflwyno cynlluniau amgylcheddol eraill.

### **Rate Rebate Scheme**

**Q28 Mick Bates:** What plans does Christine Gwyther have to establish a rate rebate scheme for low through-put abattoirs on a similar basis to the rural rate relief scheme? (OAQ269JS) [R]

**Christine Gwyther:** There are no plans to establish a rate rebate scheme for low throughput abattoirs in Wales.

### **Cynllun Ad-dalu Trethi**

**C28 Mick Bates:** Pa gynlluniau sydd gan Christine Gwyther i sefydlu cynllun ad-dalu trethi i ladd-dai â mewnbwn isel ar sail debyg i'r cynllun gostyngiad trethi gwledig? (OAQ269JS) [R]

**Christine Gwyther:** Nid oes unrhyw gynlluniau i sefydlu cynllun ad-dalu trethu i ladd-dai o'r fath yng Nghymru